Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar

**Llantarnam Lodge**

**Cartref Gofal Llantarnam Lodge**
**Pentre Lane**
**Llantarnam**
**Cwmbrân**
**NP44 3AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**17 Chwefror 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Llantarnam Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Llantarnam Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Gorffennaf 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Roedd yr arolygiad hwn yn ofynnol er mwyn ystyried y meysydd rheoli nad oeddent yn cael eu bodloni yn  yr arolygiad diwethaf.

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau y telir  sylw i hybu diogelwch a llesiant y bobl sydd yn byw yn y gwasanaeth. Ar y cyfan, mae'r bobl yn derbyn cefnogaeth gan niferoedd digonol o weithwyr gofal sydd wedi'u lleoli yn briodol. Mae'r gwasanaeth yn ymroi i recriwtio a chadw gweithwyr gofal. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgareddau i lesiant pobl. Ymgynghorir â phobl ynglŷn â'r math o weithgareddau sydd ar gael a gwerthfawrogir eu hadborth. Mae gwelliannau ar waith mewn perthynas â goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. Mae angen gwella'r gwaith o adolygu ansawdd y gofal er mwyn ystyried unrhyw batrymau neu dueddiadau mewn perthynas â gwybodaeth archwiliadau yn rheolaidd.

## Llesiant

Ymgynghorir ag unigolion ynglŷn ag ystod ac amlder y gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth yn deall mor bwysig yw cefnogi pobl i gael mynediad i weithgareddau cymdeithasol sy'n eu hysgogi. Mae gweithgareddau un i un a gweithgareddau grŵp ar gael er mwyn datblygu ymdeimlad y bobl o lesiant. Mae un gweithiwr digwyddiadau yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cydnabod y manteision o ymestyn argaeledd y gweithgareddau ymhellach ac wedi recriwtio gweithiwr gweithgareddau ychwanegol yn llwyddiannus.

Mae materion staffio yn parhau i effeithio ar ofal cymdeithasol yn gyffredinol yn dilyn pandemig COVID-19. Wrth reswm, mae'r diffyg cysondeb wedi effeithio i raddau ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae recriwtio a chadw gweithwyr gofal addas yn parhau i fod yn her, ond mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynlluniau ar gyfer hyn. Gwnaed ailasesiad o unigolion sydd ag anghenion dibyniaeth uchel iawn ers yr arolygiad diwethaf. Mae trothwyon diwygiedig ar gyfer lefel yr anghenion y gellir darparu ar eu cyfer bellach ar waith yn ystod y cam cyn-asesu. Mae'n ofynnol ail-werthuso lefelau staffio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff priodol yn gweithio yno bob amser.

Mae proses i wella'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth ar waith. Ers yr arolygiad diwethaf, penodwyd rheolwr newydd yn y gwasanaeth. Gwnaed rhai gwelliannau i ddogfennu ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth archwilio. Cynhelir ymweliadau ansawdd bob tri mis fel sy'n ofynnol, a lluniodd yr unigolyn cyfrifol adolygiad ansawdd gofal yn ddiweddar. Mae angen gwneud gwelliannau pellach mewn perthynas â nodi patrymau a thueddiadau fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl gymorth amserol gan niferoedd digonol o weithwyr gofal sydd wedi'u lleoli yn addas. Ar y cyfan, bu gwelliant i niferoedd y staff gofal sydd ar shifft yn ystod y dydd. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan wrth sôn am faint o amser y byddant yn aros i gael cymorth. Ni chlywir y clychau galw yn canu am gyfnodau hir diangen. Gwnaethom ystyried yr amserlenni staffio ar gyfer cyfnod o bedair wythnos cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod pedwar aelod o staff gofal yn cael eu cyflogi bob dydd fel arfer, a dyma a welwyd ar y diwrnod y cynhaliwyd ein harolygiad. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nodwyd bod y bobl sy'n defnyddio'r lolfa gymunol i lawr y grisiau yn cael eu goruchwylio'n well. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol wrth drafod eu cyflogaeth. Dywedodd un aelod o staff (Rwy'n hapus yma ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n dda." Dywedodd un arall wrthym " Rydyn ni'n dîm da, rydyn ni'n gweithio yn dda gyda'n gilydd."  Mae'r staff o'r farn bod pethau'n gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol pan fydd nifer ddigonol o staff yn gweithio ar bob shifft. Wrth symud ymlaen, gwnaethom atgoffa'r darparwr o'r buddion o ail-asesu nifer y staff gofal sydd eu hangen yn rheolaidd, gan ystyried lefel yr anghenion unigol a lefelau deiliadaeth y gwasanaeth. Ar y cyfan, gwnaeth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr ganmol y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y cartref, a chynrychiolydd ar ran unigolyn arall fod y gofal yn "rhagorol"..

Bu gwelliant yn sgil cwblhau'r offeryn dibyniaeth, sy'n angenrheidiol er mwyn nodi sawl gweithiwr gofal sy'n ofynnol ar gyfer pob shifft. Pan nodir bod gan bobl anghenion dibyniaeth uchel, caiff hyn ei gofnodi'n glir bellach. Fel rhan o'r ailwerthusiad hwn, cwblhawyd adolygiadau o anghenion pawb sy'n byw yn y gwasanaeth, gan ddechrau gyda'r rhai sydd â'r lefel uchaf o ddibyniaeth. Yn sgil hyn, mae ambell unigolyn sydd â'r lefel uchaf o anghenion wedi symud i leoliadau gofal eraill. Ymddengys fod gweithwyr gofal yn brysio llai ac yn darparu gofal i'r bobl mewn ffordd fwy hamddenol. Nodwyd gwelliant ym morâl y staff a bodlonrwydd cyffredinol y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Ymgynghorir ag unigolion ynglŷn ag ystod ac amlder y gweithgareddau. Ar hyn o bryd, mae un cydgysylltwr gweithgareddau yn cael ei gyflogi  sy'n gweithio bedwar diwrnod yr wythnos yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Cyn cwblhau'r arolygiad, penodwyd cydgysylltwr gweithgareddau arall. Mae dogfennaeth yn dangos bod y gweithiwr gweithgareddau yn ymgynghori â'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn datblygu a gwella ystod ac amlder y gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r cofnodion unigol yn dangos bod ystod o weithgareddau ar gael ar hyn o bryd ar ffurf gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp, yn ddibynnu ar ddewisiadau'r bobl. Rhagwelir y bydd y gweithgareddau a gynigir yn cael eu datblygu ymhellach pan fydd y tîm yn fwy sefydledig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r broses i wella’r gwaith o oruchwylio’r gwasanaeth bellach ar waith. Gwelsom ddogfennaeth sy’n dangos bod mwy o ffyrdd o ymgysylltu â'r bobl sy’n byw yn y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal a gyflogir yn y gwasanaeth bellach ar waith. Cynhelir cyfarfodydd rhwng y bobl sy’n byw yn y cartref a'r staff sy’n gweithio yno yn rheolaidd. Sefydlwyd boreau coffi yn ddiweddar er mwyn rhoi cyfle i gynrychiolwyr y bobl ymgynghori â'r unigolyn cyfrifol. Croesawyd hyn, a chredir y bydd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu llunio cylchlythyr rheolaidd a fydd yn cael ei ddarparu i’r bobl sy’n byw yn y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella’r cyfathrebu ymhellach, drwy roi’r diweddaraf i’r bobl am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym am eu cynlluniau i sicrhau bod cynrychiolwyr y bobl yn rhan o'r adolygiadau pan fo'n fuddiol i wneud hynny.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau ansawdd, sydd yn dangos bod y gwaith o reoli’r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio. Mae adroddiadau ar gael sydd yn dangos pryd a sut y gwnaeth yr ymweliadau hyn ddigwydd. Gwelsom fod yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal bob tri mis yn ôl yr angen. Mae’n glir bod y gwasanaeth wedi gwella pa mor aml y mae’n hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru o ddigwyddiadau adroddadwy ers yr arolygiad diwethaf. Canfuom welliannau mewn rhai dogfennau, gydag archwiliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom  gopi o adolygiad ansawdd gofal a gwblhawyd yn ddiweddar. Mae’n dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymrwymedig i sicrhau bod proses ar waith i oruchwylio’r gwasanaeth yn effeithiol. Er bo archwiliadau bellach yn cael eu cwblhau yn rheolaidd, mae angen gwybodaeth yn ymwneud ag adnabod patrymau neu dueddiadau i leihau risgiau, ac mae hwn yn faes i'w wella. Nid ystyriwyd hyn yn yr adolygiad ansawdd gofal, ac fe ddylai fod wedi cael ei gynnwys. Darparodd y gwasanaeth sicrwydd y byddai'r ystyriaeth yn cael ei dangos yn yr adolygiad ansawdd gofal nesaf.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau priodol i sicrhau bod proses recriwtio barhaus ac ymgais i gadw staff yn mynd rhagddynt. Er bod recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn parhau i fod yn her i bob darparwr gofal, gwelsom fod y rhan fwyaf o’r gweithwyr gofal a oedd wedi gadael eu swydd yn ddiweddar wedi cwblhau holiadur gadael, sydd o gymorth i adnabod y rhesymau y tu ôl i'w penderfyniad. Nododd y gwasanaeth ei fod yn adolygu'r telerau ac amodau sydd ar waith ar gyfer gweithwyr gofal, gan gynnwys graddau cyflog, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gystadleuol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 21 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth wedi sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 80 | Er bod adolygiad ansawdd gofal Rheoliad 80 yn cael ei gwblhau bob chwe mis, nid yw'r adolygiad yn ystyried canlyniad yr archwiliadau rheolaidd a gaiff eu llunio gan y gwasanaeth fel mater o drefn. Nid yw archwiliadau yn ystyried unrhyw batrymau neu dueddiadau yn y wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, ac felly nid ydynt yn dangos yn llawn sut mae risgiau'n cael eu lliniari'n effeithiol. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi dangos yn gyson bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer goruchwylio a rheoli'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 12/04/2022